# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Preswyl Dolwar**

**Cartref Preswyl Dolwar**
**Llanbedrog**
**Pwllheli**
**LL53 7PA**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

## 2 Mai 2024.

02/05/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref Preswyl Dowlar

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | WILLIAMS AND JONES |
| Lleoedd cofrestredig | 17 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 29 Mehefin 2021 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth tosturiol gan dîm o staff cyson sy'n gwybod beth yw eu hanghenion yn dda. Maent yn cael gofal iechyd mewn modd amserol sy'n eu galluogi i gadw mor iach â phosibl. Gall y bobl bersonoli eu hystafelloedd ac maent yn lân ac yn daclus. Mae gwaith cynnal a chadw yn mynd rhagddo mewn rhai ystafelloedd a choridorau yn y cartref ac mae cynlluniau i ddatblygu'r iard y tu allan. Mae'r rheolwr yn weladwy a dywedodd y staff gofal ei fod yn gefnogol ac yn hawdd mynd ato. Mae'r rheolwr yn blaenoriaethu'r broses oruchwylio a chynhelir adolygiad blynyddol ar gyfer y staff er mwyn darparu cymorth ffurfiol wedi'i ddogfennu sy'n gyfredol. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn bresennol yn y cartref bron bob dydd ac yn ymgymryd â rhai shifftiau ymarferol. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn adnabod y bobl a'r gweithwyr gofal a gall gadw golwg ar ansawdd y gofal a ddarperir yn y cartref.

## Llesiant

Caiff hawliau'r bobl eu diogelu yn y cartref gan eu bod yn gallu mynegi eu dewisiadau, a chaiff y rhain eu dogfennu yn eu cynlluniau gofal. Mae'r staff gofal wedi cael hyfforddiant ar ddiogelu a'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid, er mwyn sicrhau bod y bobl yn cael gofal diogel. Gall y bobl ddewis eu prydau bwyd a'r hyn y maent am ei wneud yn ystod y dydd. Gwelsom unigolyn yn mynd allan am y dydd gyda'i deulu, a dywedodd ei fod yn hapus ac yn edrych ymlaen. Cofnodir dewisiadau iaith gyntaf y bobl a chânt eu parchu. Mae'r rhan fwyaf o'r staff a'r bobl sy'n cael gofal yn siarad Cymraeg a chlywsom y bobl a'r staff gofal yn sgwrsio yn Gymraeg yn gyson. Gwnaethom nodi bod rhai dogfennau gofal wedi cael eu hysgrifennu yn Gymraeg hefyd. Gwelsom fod y staff gofal yn cyfathrebu'n dda â'i gilydd sy'n sicrhau bod anghenion y bobl yn cael eu diwallu. Mae lolfeydd cymunedol neu heulfan dawelach ar gael lle gall y bobl eistedd os byddant yn dymuno. Mae'r iard y tu allan yn cael ei ddatblygu, a dywedodd unigolyn wrthym ei fod yn edrych ymlaen at gael defnyddio'r iard gan ei fod yn mwynhau garddio ac eistedd yn yr awyr agored. Mae'r staff gofal yn darparu gweithgareddau i'r bobl yn unol â'u galluedd, ac mae'r bobl yn dathlu digwyddiadau a gwyliau arbennig. Gwelsom sgyrsiau cyfeillgar a pharchus rhwng y staff gofal a'r bobl. Dywedodd unigolyn wrthym ei fod wrth ei fodd yn byw yn y cartref gan fod y staff gofal yn gyfeillgar a'r bwyd yn flasus. Mae'r gwasanaeth yn sicrhau ei fod yn cyfathrebu'n effeithiol â theuluoedd y bobl ac unigolion arwyddocaol eraill. Gwelsom gardiau diolch a oedd wedi'u hanfon at y staff gofal i ddiolch am eu gofal meddylgar a gofalus. Mae'r gwasanaeth yn rhoi dewis o brydau bwyd i'r bobl a gaiff eu paratoi'n ffres yn y lleoliad. Gall ddarparu ar gyfer y bobl y mae angen deiet arbenigol arnynt. Gall y bobl gael diodydd a byrbrydau fel y mae eu hangen arnynt.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael gofal meddylgar gan dîm o staff sy'n darparu gofal cyson iddynt. Caiff y bobl eu hasesu cyn cael eu derbyn i'r cartref er mwyn sicrhau y gellir diwallu eu hanghenion. Gwelsom fod y bobl yn gallu cael eiriolwr os oes angen er mwyn cynnal eu hawliau. Mae'r staff gofal yn ymwybodol o'r protocolau diogelu lleol i gadw'r bobl yn ddiogel. Caiff dewisiadau a hanes y bobl eu dogfennu yn eu cynlluniau gofal a defnyddir y ddogfen “Dyma fi” yn effeithiol. Caiff ymweliadau gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol eu dogfennu yn ogystal ag unrhyw gyfarwyddiadau a chanlyniadau. Gall y bobl gael gafael ar gyngor gofal iechyd mewn modd amserol er mwyn cynnal eu hiechyd.  Caiff cwympiadau a damweiniau eu cofnodi'n briodol, a chaiff asesiadau risg eu rhoi ar waith er mwyn ceisio lliniaru risgiau pellach. Gwelsom fod y cynlluniau gofal personol a'r asesiadau risg yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u diweddaru pan fydd cyflyrau'r bobl yn newid. Mae gwybodaeth sensitif yn cael ei chadw mewn cypyrddau dan glo mewn swyddfa a gaiff ei chloi er mwyn sicrhau cyfrinachedd.

Gwelsom fod trefniadau da ar waith yn y cartref ar gyfer rhoi a storio meddyginiaeth. Nid oedd unrhyw fylchau o ran llofnodion ar siartiau meddyginiaeth y bobl. Mae'r siartiau meddyginiaeth yn cael eu harchwilio gan y rheolwr a chaiff y canlyniadau eu rhannu â'r staff mewn cyfarfodydd misol er mwyn annog arferion da. Caiff meddyginiaeth ei storio'n briodol a cheir gwared ar feddyginiaeth sydd wedi'i defnyddio yn ddiogel. Caiff llwybr archwilio effeithiol ei gynnal mewn perthynas â meddyginiaethau sy'n cyrraedd ac yn gadael y cartref. Mae'r staff gofal yn cael hyfforddiant ar roi meddyginiaeth. Mae'r fferyllfa leol yn rhoi cymorth i'r cartref ac yn ymdrechu i ddosbarthu presgripsiynau mewn modd amserol.

## Yr Amgylchedd

Gall y bobl bersonoli eu hystafelloedd ac mae ganddynt ddewis o ardaloedd i dreulio eu hamser ynddynt. Mae gwaith yn mynd rhagddo yn y cartref i wella ardal y swyddfa. Mae ôl traul mewn rhai ardaloedd prysur fel y coridorau. Rhoddodd yr Unigolyn Cyfrifol sicrwydd i ni y bydd yn mynd i'r afael â hyn. Mae cynlluniau ar waith i ailddylunio'r iard er mwyn darparu ardal ddymunol i'r bobl eistedd allan yn ystod yr haf. Mae bwrdd bwyta ac ardal dawel ar gael yn yr heulfan newydd lle gall y bobl eistedd os byddant yn dymuno gwneud hynny. Mae ystafelloedd y bobl yn olau, yn lân ac yn daclus ac maent wedi'u hawyru'n briodol. Mae'r ystafelloedd a welsom yn cydymffurfio â'r Rheoliadau ac maent mewn cyflwr da.

Gall y bobl gael gafael ar gyfarpar sydd ei angen ar gyfer eu gofal a gaiff ei gynnal a'i wasanaethu. Mae'r asesiadau iechyd a diogelwch a'r cofnodion ar gyfer y cartref yn cael eu hasesu a'u diweddaru'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod gofal ac amgylchedd diogel yn cael eu darparu i'r bobl. Caiff gwiriadau cyfleustodau fel dŵr, nwy a thrydan eu hadolygu'n aml, a darparwyd tystysgrifau diogelwch i ni ar ein cais. Cynhelir ymarferion tân yn rheolaidd a chânt eu hadolygu. Roedd yswiriant indemniad y gwasanaeth yn gyfredol. Mae'r arferion hylendid a rheoli heintiau yn effeithiol ac mae cyfarpar diogelu personol (PPE) ar gael i'r staff.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r Datganiad o Ddiben yn disgrifio'r gofal a roddir i'r bobl yn ddigonol. Gall y staff gofal gael gafael ar bolisïau a gweithdrefnau a gaiff eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd i'w harwain yn eu gwaith. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn bresennol yn y cartref bron bob dydd ac yn gweithio shifftiau ymarferol. Gall yr Unigolyn Cyfrifol weld safon y gofal a ddarperir yn uniongyrchol ac mae'n gyfarwydd â'r bobl, eu teuluoedd a'r staff. Yn unol â'r newidiadau i'r Rheoliadau, cynghorir yr Unigolyn Cyfrifol i gadw cofnodion ysgrifenedig a ffurfiol o'i ymweliadau â'r cartref ac unrhyw asesiadau/archwiliadau y mae'n eu cwblhau. Dywedodd y rheolwr wrthym ei fod yn cael cefnogaeth dda gan yr Unigolyn Cyfrifol a'i fod yn gallu ymgymryd â hyfforddiant sy'n berthnasol i'w rôl. Mae polisi cwynion a gweithdrefn gwyno ar waith os bydd eu hangen ar y bobl. Mae polisi chwythu'r chwiban ar gael i'r staff yn ôl yr angen. Gwelsom fod y gwasanaeth yn buddsoddi'n barhaus yn yr amgylchedd a'r staff er mwyn sicrhau safonau gofal a byw da i'r bobl.

Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan y rheolwr sy'n weladwy ac yn hawdd mynd ato. Mae sawl aelod o'r staff wedi gweithio yn y cartref ers iddo agor. Mae trosiant staff yn isel, ac mae'r bobl yn cael budd o grŵp o staff cyson sy'n gyfarwydd iawn â'u hanghenion. O edrych ar rotas gwaith y staff, gwelsom fod nifer y staff sydd ar ddyletswydd yn gyson. Ni chaiff unrhyw staff asiantaeth eu defnyddio, ac mae'r staff yn cyflenwi ar gyfer absenoldebau ei gilydd. Mae'r staff yn cael hyfforddiant ar sail dreigl er mwyn sicrhau bod ganddynt y wybodaeth a'r sgiliau diweddaraf i gyflawni eu gwaith. Dywedodd y rheolwr wrthym nad yw sesiynau goruchwylio ac arfarniadau blynyddol y staff yn gyfredol a gwelsom o'r cofnodion fod hyn yn wir. Rhoddodd y rheolwr sicrwydd i ni y bydd yn rhoi blaenoriaeth i hyn. Ni welsom fod hyn yn effeithio'n uniongyrchol ar les nac ymarfer y staff. Byddwn yn adolygu hyn eto yn yr arolygiad nesaf. Mae'r trefniadau recriwtio staff yn effeithiol ac mae gwiriadau cyflogi ar waith er mwyn sicrhau bod y staff yn addas i weithio gydag oedolion agored i niwed.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| | • Sesiynau goruchwylio ac arfarniad blynyddol (Rheoliad 36 (2)(c)). | Cyflawnwyd |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 19/06/2024